Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# GOFAL A THRWSIO 2024-2029

## Strategaeth Bum Mlynedd ar gyfer Gofal a Thrwsio yng Nghymru

**Gwella Cartrefi, Newid Bywydaau.**



## Ein Gweledigaeth

**Cymru lle gall pob person hŷn fyw yn annibynnol mewn cartref diogel, cynnes a chyfleus.**

"Bu Gofal a Thrwsio yn hollol wych. Wrth i anghenion fy nhad yng nghyfraith gynyddu, maent wedi bod gyda ni i gynorthwyo bob cam o'r ffordd. Maent yn ymateb mor dda ac mor gyflym i osod offer cynorthwyo symudedd. Gall trin y dirywiad mewn iechyd perthynas oedrannus fod mor heriol ac yn aml wyddoch chi ddim ble i fynd am gymorth, ond mae Gofal a Thrwsio yn sicr wedi gwneud bywyd ychydig yn rhwyddach i bawb ohonom. Rydym yn wirioneddol yn ei werthfawrogi." – cleient Gofal a Thrwsio

Cleient Gofal a Thrwsio

# BETH YDYM NI YN EI WNEUD?

**Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn yng Nghymru i drwsio, addasu a chynnal a chadw eu cartrefi.**

Rydym yn fudiad elusennol i Gymru-gyfan, gan weithio i sicrhau fod gan bobl hŷn gartrefi addas ar gyfer eu hanghenion. Nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn:

- Fyw mewn tŷ anaddas ar gyfer eu hanghenion
- Dioddef afiechyd o dai oer a llaith oherwydd na fedrant fforddio'r biliau ynni
- Marw ym misoedd y gaeaf oherwydd eu bod yn byw mewn cartref oer
- Byw mewn tŷ sy'n beryglus neu heb fod yn ffit i bobl fyw ynddo
- Bod heb neu orfod aros yn rhy hir am addasiadau tai i'w galluogi i fyw'n ddiogel, annibynnol a gydag urddas.

Am dros 35 mlynedd mae Gofal a Thrwsio wedi darparu, esblygu ac arloesi gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Ein prif fuddiolwyr yw pobl hŷn sy'n berchnogion eu cartrefi a thenantiaid preifat. Cawn gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl dros 60 oed. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol, a rhai trefniadau comisiynu a chyllido lleol, yn ein galluogi i helpu pobl gydag anghenion mwy cymhleth sydd dros 50 oed, pobl anabl iau a rhai tenantiaid tai cymdeithasol.

Mae ein is-bennawd **Gwella Cartrefi, Newid Bywydau** yn disgrifio'r hyn a wnawn, yn ogystal â'r effaith a gaiff ein gwaith ar fywydau y bobl hŷn ac anabl yr ydym yn eu helpu.

## Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaethau ymarferoi, rheng-flaen ar draws Cymru gyfan. Mae gweithwyr achos, crefftwyr medrus a syrfewyr cymwys yn darparu gwaith trwsio, addasiadau, cynnal a chadw a gwelliannau i gartrefi, gan roi cyngor ar effeithiolrwydd ynni, mynediad i grantiau, codi arian a chynyddu'r nifer sy'n hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Rydym yn helpu i ddarparu cartrefi diogel, cynnes a chyfleus ar gyfer pobl hŷn a'u galluogi i fyw'n annibynnol a gydag urddas yn eu cartrefi eu hunain. Mae ymddiriedaeth yn elfen allweddol yn ein llwyddiant dros y blynyddoedd, ac yn rheswm pam y cawn ein gwerthfawrogi'n fawr fel gwasanaeth.

## Care & Repair Cymru

Care & Repair Cymru yw'r corff cenedlaethol ar gyfer Gofal a Thrwsio yng Nghymru ac mae'n llais cryf dros bobl hŷn yng Nghymru.

Rydym yn hyrwyddo ac yn codi llais ar anghenion tai pobl hŷn i gyllidwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau. Drwy ymchwil, gwerthuso a chasglu data rydym yn helpu i ddylanwadu ar bolisi cryf gan y llywodraeth a gwella gweithio integredig gyda gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol. Mae ein hadroddiadau gwerthuso i Lywodraeth Cymru a chyllidwyr allweddol eraill yn dangos effaith ataliol sylweddol a chanlyniadau ein gwaith. Maent hefyd yn dangos y gwerth am arian a gafodd ei sicrhau, a sut mae tai gwell yn arwain at iechyd gwell a gostwng y galw am wasanaethau gan y GIG a gofal cymdeithasol.

Mae Care & Repair Cymru yn sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol arloesol, i ategu a chynyddu gwasanaethau rheng-flaen ac i helpu mynd i'r afael ag angen a galw cymdeithas sy'n heneiddio.

Rydym yn arwain y mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru, yn cynnwys rheoli'r brand dibynadwy, cefnogi llywodraethiant da, arloesedd, ansawdd a chysondeb gwasanaeth, yn ogystal â rhannu arfer gorau.

# EIN HEFFAITH

**Mae'r gwasanaethau a gyflwynwn wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhwng 2022-23 a 2023-24 gwelsom 24% yn fwy o wasanaethau yn cael eu cyflwyno i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, 10% yn fwy o weithiau gwella cartrefi, cynyddu gwerth gwaith a gwblhawyd gan 19% a chynnydd o 32% mewn budd-daliadau nas hawliwyd a sicrhawyd ar gyfer ein buddiolwyr.**

Mewn blwyddyn nodweddiadol bydd Gofal a Thrwsio yn darparu:

- 65,000 o fathau gwasanaeth cyfun i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain
- Gwerth £20 miliwn o waith trwsio a gwella tai
- 60,000 o swyddi unigol
- 20,000 swydd Rhaglen Addasiadau Brys, cefnogi pobl i gael dod adre o'r ysbyty ac atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty a gofal preswyl.
- £10 miliwn o fudd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio ar gyfer pobl hŷn.
- Cefnogi 3,000 o bobl sydd â cholled synhwyraidd, strôc neu dementia drwy ein gwasanaeth arbenigol Ymdopi'n Well.
- Cefnogi 4,500 o gleientiaid drwy eu galluogi i fynd adre o'r ysbyty yn gyflymach ac yn ddiogel drwy Wasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn seiliedig mewn 17 ysbyty ledled Cymru, gan arwain at arbed amcangyfrif o 25,000 o ddyddiau gwely.
- Helpu 135 cleient drwy ein cronfa caledi, gan helpu i liniaru tlodi tanwydd, trin gosodiadau nwy anniogel, a phobl hŷn yn byw mewn tai mewn cyflwr gwael gyda chyfanswm cost gweithiau o £170,000, gyda'n cronfeydd caledi wedi cyfrannu £60,000 at hynny.



# CYFNOD O NEWID A HER

**Mae heriau poblogaeth sy'n heneiddio yn hysbys iawn i wneuthurwyr polisi, gwleidyddion a darparwyr gwasanaeth. Eto, mae'r nifer o geisiadau am help a gafodd Gofal a Thrwsio dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn fwy hyd yn oed na'r nifer o bobl hŷn sy'n dod yn gymwys am ein gwasanaethau.**

Rydym yn byw mewn byd gwahanol iawn i'r adeg y cyhoeddwyd ein dogfen strategaeth ddiwethaf. Mewn blynyddoedd diweddar mae pobl hŷn fregus wedi dioddef pandemig, argyfwng costau byw a chynnydd enfawr mewn biliau ynni. Fe wnaethant dreulio mwy o amser adre yn ystod y pandemig, sy'n dangos pwysigrwydd cartref diogel, cynnes a chyfleus sy'n rhydd o beryglon i iechyd a llesiant.

Gyda gwasanaethau proffesiynol ar gau yn ystod cyfnodau clo, cafodd pobl hŷn lai o ymweliadau a ni sylwyd ar lawer o broblemau tai ac ni chawsant eu gwirio na'u datrys. Roedd y galwad i 'gysgodi' llawer o bobl hŷn yn golygu llai o fynediad i iechyd a gofal cymdeithasol ac iddynt fod yn fwy ynysig oddi wrth ffrindiau a theulu. Nawr, mae cleientiaid yn dod atom yn gynyddol fregus yn eu hamgylchiadau personol a hefyd eu hamgylchedd cartref. Mae gan ein gwaith achos rifau uwch, ac anghenion mwy cymhleth, nag erioed o'r blaen. Yn aml mae galwad am un broblem yn datgelu llawer pwy pan gyrhaeddwn yr annedd.

Cafodd yr argyfwng costau byw effaith ar ein gwasanaethau a hefyd ein cleientiaid. Arweiniodd prisiau ynni uchel at i lawer o'n cleientiaid fynd ati eu hunain i ddogni faint o ynni a ddefnyddient. Roedd un cleient y gwnaethom ei helpu yn gwario 62% o'i holl incwm ar danwydd a dŵr. Mae pobl eraill wedi cwtogi mewn meysydd eraill, yn cynnwys trwsio ac addasu tai. Cafodd torri'n ôl sgil-effeithiau: yn hytrach na thraul, bob dydd gwelwn gartrefi yng Nghymru nad ydynt yn ffit i bobl fyw ynddynt oherwydd eu bod mewn cyflwr difrifol.

Unwaith y caiff problemau eu dynodi, rydym yn wynebu heriau sylweddol yn darparu ein gwaith addasu a gwella cartrefi. Mae prinder deunyddiau, cynnydd mewn costau a gostyngiad yn nifer y contractwyr dibynadwy y gallwn alw arnynt wedi creu sefyllfa lle, ynghyd â chymhlethdod cynyddol ein cleientiaid, mae'n gynyddol gymhleth i gael gwaith wedi'i wneud. Mae nifer y cleientiaid na all fforddio talu am waith eu hunain wedi cynyddu gan 130% ond mae'n anos dod o hyd i gyllid elusennol. Mae pobl hŷn yn aros tra'u bod yn byw mewn tai anghyfleus, oer ac anniogel. Credwn fod hyn yn annerbyniol.

Ar lefel genedlaethol, mae ein gwasanaethau yn parhau i gefnogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tlodi tanwydd a datgarboneiddio. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio 2021 yn cynnwys Gofal a Thrwsio fel allwedd i gyflawni gwneud tai yn hygyrch a derbyniol, gwella llif ysbytai a mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Cynllun Tlodi Tanwydd Cymru yn cyfeirio at ein gwaith i ddarparu cymorth holistig i bobl sy'n mynd adre o'r ysbyty i gartrefi oer.

Rydym yn cwblhau tua 20,000 o swyddi y Rhaglen Addasiadau Brys bob blwyddyn, sydd â rôl hanfodol mewn atal cwympiadau a damweiniau yn y cartref. Rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gyhoeddi gwybodaeth sy'n profi fod addasiadau a gyflwynir drwy ein Rhaglen Addasiadau Brys yn atal tua 13% o gwympiadau a fedrai achosi anafiadau ac yn oedi mynediad i ofal preswyl dros gyfnod o 5-mlynedd.

Rydym wedi sefydlu ein Gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach ar draws pum Bwrdd Iechyd Lleol, gan helpu tua 4,500 o gleifion bob blwyddyn i adael yr ysbyty yn gyflymach i gartrefi a gafodd eu gwneud yn ddiogel, cynnes ac a gafodd eu haddasu i ddarparu ar gyfer newid mewn anghenion yn dilyn derbyn i ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn arbed tua 25,000 o ddyddiau gwely i GIG bob blwyddyn ac yn adnodd hanfodol i wella llif cleifion a galluogi pecynnau gofal i fynd yn eu blaen. Mae'r gwasanaeth, a ddefnyddir fel esiampl o arfer da, yn parhau'n ysgogydd cryf i fyrddau iechyd sy'n anelu i ateb blaenoriaethau Gweinidogion wrth i Gymru barhau i weithio i ostwng rhestri aros am ofal wedi'i drefnu.

Mae gweithio partneriaeth yn allweddol i'n llwyddiant. Mae Ymdopi'n Well yn gweithio gyda phedwar sefydliad cenedlaethol ledled Cymru i rannu arbenigedd ac arfer da ar y ffordd orau i gefnogi pobl 50+ oed yng Nghymru sy'n byw gyda cholled synhwyraidd. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu cyfathrebu hygyrch drwy ddehonglwyr BSL yn ei wasanaeth, wedi prototeipio defnydd technoleg i gefnogi byw annibynnol ac yn arloesi wrth ddweud straeon cleientiaid a mesur llesiant.

Rhoddwn gyngor ar dlodi tanwydd ac effeithiolrwydd ynni, i ddechrau drwy ein gwasanaeth 70+ Cymru mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac yn awr drwy ein prosiect Hynach Nid Oerach mewn partneriaeth gyda Wales & West Utilities. Cefnogwn bobl hŷn i gael mynediad i welliannau cartref a chynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth tebyg i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ac ECO4 (flex). Yn gydnaws gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru am ddatgarboneiddio stoc tai Cymru, rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn ehangu ein gwaith ac arwain y ffordd drwy hyrwyddo datgarboneiddio yn y sector tai preifat.

Ynghyd â'n gwaith i ddatblygu'r gwasanaethau gorau wrth gefnogi'r sector statudol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi cymryd rôl fwy canolog yn ein gwaith polisi ac eiriolaeth drwy bwyslais ar ymchwil ac ymgysylltu â'r Senedd. Rydym yn clywed y straeon a gweld cartrefi dros 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru bob blwyddyn. Mae hyn yn ein golygu ein bod mewn lle da i dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn wrth fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi.

Ni yw llais tai pobl hŷn yng Nghymru. Er ein gwaith, bob dydd gwelwn gartrefi heb fod yn ffit ac mewn cyflwr difrifol lle na all anghenion pobl hŷn fregus gael eu diwallu oherwydd diffyg adnoddau. Un o'n prif ofynion polisi a chyllid yw gweithredu Hawl i Gartref Digonol, yn unol â saith ffactor digonolrwydd yn cynnwys tai cyfleus a fforddiadwy. Yn ail, creu grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer achosion o dai mewn cyflwr difrifol a pheryglus, lle na all pobl bregus ddatrys eu problemau tai ac yn byw mewn amodau syn niweidiol i'w hiechyd a llesiant.

Mae'n hanfodol fod Gofal a Thrwsio yn parhau i ddarparu, tyfu ac arloesi dros y pum mlynedd nesaf i ateb yr heriau sydd i ddod ar ran pobl hŷn sydd angen cymorth. Wrth i bwysau ar gyllid cyhoeddus barhau i frathu, gyda chostau'n dal i fod yn uchel, ac wrth i restri aros barhau i dyfu, mae angen i ni fod yn ystwyth, creadigol ac arloesol i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

Yng nghyd-destun yr uchod, mae'r strategaeth bum-mlynedd hon yn amlinellu'r blaenoriaethau allweddol yr ydym wedi eu dynodi, drwy broses o sgyrsiau mewnol rhwng y timau ac aelodau Bwrdd Asiantaethau Gofal a Thrwsio a Care & Repair Cymru, sydd wedi cynnwys dyddiau cynllunio, digwyddiadau, trafodaethau mewn cyfarfodydd Bwrdd a sgyrsiau unigol. Mae'n strategaeth ar gyfer Gofal a Thrwsio fel mudiad ar y cyd. Mae'r cwlwm a'r cydweithio rhwng Care & Repair Cymru a'r 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn gryf ac mae'r strategaeth bum mlynedd yma yn anelu i'n helpu i barhau ein taith lwyddiannus o helpu pobl hŷn sydd fwyaf o angen help a chymorth gyda'u cartref.

> "Rydym yn gweld achosion mwy cymhleth ac ymddengys ein bod yn cnocio ein pennau yn erbyn wal frics. Mae adeiladau mewn cyflwr llawer gwaeth. Ni wnaeth pobl ofyn i rywun arall am help am mor hir, a nawr mae'r problemau hyn wedi crynhoi."
>
> **Gweithiwr Achos Care & Repair, De Cymru**

> "Mae gen i gontractwyr yn awr yn rhoi dyfynbrisiau sydd mewn grym am saith diwrnod pan oeddwn yn arfer cael contractwyr yn dweud eu bod mewn grym am chwe mis, oherwydd na allan nhw ddal eu prisiau. Ac mae hynny'n creu pob math o broblemau."
>
> **Swyddog Technegol Gofal a Thrwsio, Gogledd Cymru.**

> "Rydym yn dal i fyw mewn cyfnod o gyni. Mae cystadleuaeth gynyddol am botiau llai o arian wrth i doriadau barhau i wasanaethau statudol a'r trydydd sector."
>
> **Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio**



# EIN WYTH AMCAN STRATEGOL

**Ein nod yw helpu cynifer o bobl hŷn ag y medrwn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a chyfleus. I gyflawni hyn dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio i gyflawni'r wyth amcan strategol canlynol:**

## AMCAN 1

**Cynnal a thyfu'r ffrydiau cyllid cyfredol ac ymchwilio cyfleoedd busnes a phartneriaeth newydd.**

- Ateb y galw a'r angen cynyddol gan boblogaeth heneiddiol am wasanaethau sy'n galluogi byw diogel ac annibynnol a gostwng y galw ar iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cryfhau'r sylfaen yr ydym yn darparu gwasanaethau Gofal a Thrwsio craidd a chyson ohonynt a thyfu gwasanaethau lleol gyda chyllid prosiect i fynd â'r afael ag angen.
- Mae cyllid prosiect sylweddol tebyg i Ymdopi'n Well, Ysbyty i Gartref Iachach a Hynach Nid Oerach yn cynyddu gwasanaethau arbenigol yn sylweddol ar gyfer cleientiaid gydag anghenion neilltuol.
- Wrth i bwysau ar gyllid cyhoeddus barhau i frathu a'r tirlun gwleidyddol yn newid, mae angen i ni fod yn ystwyth, creadigol ac arloesol i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd newydd.
- Bydd sicrhau cyllid newydd yn ein helpu i barhau i ehangu ein cynnig i bobl hŷn sydd ag angen o ran tai a chynnal Gofal a Thrwsio fel sefydliad.

## AMCAN 2

**Gwella ein henw da fel llais arbenigol, darparydd gwasanaethau galw cyntaf a man rhagoriaeth ar gyfer addasiadau tai.**

- Cryfhau ein gwaith dylanwadu ar wella polisi a gwasanaethau addasiadau tai.
- Cryfhau ceisiadau cenedlaethol a lleol am gyllid.
- Cryfhau ein statws a pha mor barod ydym ar gyfer unrhyw drafodaethau yn y dyfodol ar ddarpariaeth gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer addasiadau tai.
- Mae addasiadau yn hanfodol i gefnogi ein darpariaeth gwasanaeth rheng-flaen ar gyfer cleientiaid, ac ysgogi refeniw i gynnal gwasanaethau Gofal a Thrwsio.

## AMCAN 3

**Sicrhau rhagoriaeth wrth gasglu, dadansoddi ac adrodd data**

- Bydd deall proffiad  ein cleientiaid yn well a gwell data yn ein helpu i wella gwasanaethau.
- Gwybodaeth gryf am ganlyniadau, effaith ataliol ac adenillion cymdeithasol o fuddsoddi yn cryfhau ein hachos am gyllid gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a chyllidwyr elusennol.
- Cryfhau ein gwaith cysylltiadau cyhoeddus, polisi, dylanwadu, materion cyhoeddus ac ymgyrchu.

## AMCAN 4

**Tyfu a gwella ein gwaith ar lais a dirnadaeth cleientiaid.**

- Bydd gwella sut ydym yn dal llais ein cleientiaid yn cynyddu dealltwriaeth o anghenion na chânt eu diwallu, bylchau gwasanaeth ac yn gyrru gwasanaethau gwell ar gyfer cleientiaid.
- Cryfhau ein ceisiadau cyllid a gofynion yn lleol ac yn genedlaethol.
- Cryfhau ein gwaith cysylltiadau cyhoeddus, polisi, dylanwadu, materion cyhoeddus ac ymgyrchoedd.

## AMCAN 5

**Gwella ein cynnig digidol i gynyddu hygyrchedd, cynhwysiant a chyrraedd ein gwasanaethau a'n gwybodaeth.**

- Cynyddu cyrraedd a mynediad ar-lein i genhedlaeth hŷn sy'n gynyddol gymwys yn ddigidol ac sy'n graff gyda thechnoleg.
- Moderneiddio ein gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithiol.
- Cynyddu'r defnydd  o dechnoleg i'r eithaf i gefnogi byw a llesiant annibynnol.

## AMCAN 6

**Cynyddu ffocws ar recriwtio mewnol, cadw a chymwyseddau, yn ogystal â chapasiti contractwyr lleol.**

- Denu a chadw pobl dda yn Gofal a Thrwsio.
- Helpu i fynd i'r afael â phrinder contractwyr lleol a rhestri aros cleientiaid.
- Achub y blaen ar angen cynyddol wrth i'n poblogaeth heneiddio.

## AMCAN 7

**Ehangu gwasanaethau tlodi tanwydd a datgarboneiddio.**

- Darparu gwasanaethau arbenigol gwell ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi tanwydd.
- Rhoi sylw i broblem gynyddol tlodi tanwydd a marwolaethau ychwanegol y gaeaf ymysg pobl hŷn.
- Cynyddu ein henw da fel y sefydliad blaenllaw a'r man cyntaf i fynd ato ar gyfer datgarboneiddio yn y sector tai preifat.

## AMCAN 8

**Sefydlu pellach ar lywodraethiant da, sicrwydd ansawdd a diwylliant o ddysgu a gwella.**

- Darparu gwasanaethau rheng flaen rhagorol a dibynadwy a gweithredu i'r safonau llywodraethiant a sefydliadol uchaf.
- Rheoli risg corfforaethol a sicrhau stiwardiaeth effeithlon o gyllid cyhoeddus.

# O NOD I REALATH

**Rydym yn credu'n angerddol mewn mynd i'r afael â phroblemau tai sy'n wynebu nifer cynyddol o bobl hŷn.**

Rydym eisiau i'r weledigaeth a'r uchelgais a nodir yn y strategaeth bum mlynedd hon i'n helpu ar y daith. I gyflawni ein gweledigaeth, a phob un o'r amcanion strategol, byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu manwl a thargedau mesuradwy. Gwnawn hyn ar y cyd fel Care & Repair Cymru a'r holl Asiantaethau Gofal a Thrwsio drwy ein cyfarfodydd rhwydwaith rheolaidd.

Mae strategaethau yn ddogfennau deinamig ac, ers i ni ddechrau trafod a llunio'r ddogfen strategaeth hon, rydym eisoes wedi dechrau gwaith i drafod a chytuno ar y gwaith ymarferol sydd angen i Care & Repair Cymru ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio ei wneud ar y cyd i roi'r wyth amcan strategol ar waith.

Byddwn yn parhau i ddatblygu, gweithredu a mireinio'r cynlluniau gweithredu hyn ac adolygu, monitro ac adrodd arnynt gan weithio ar y cyd fel y mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau fod ein partneriaid yn Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, y Loteri Genedlaethol, y trydydd sector, Wales & West Utilities, cwmnïau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ymgysylltu ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar ein cynnydd.



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

**www.careandrepair.org.uk**

enquiries@careandrepair.org.uk

**029 2010 7580**

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig **(Rhif 1163542)**
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant **(Rhif 09574555)**.